# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 4 Mawrth 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

## 265(v4)

## 1 Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

**Gofyn i'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**

**Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynglŷn â'r adroddiadau y gallai gemau rygbi'r chwe gwlad fod ar gael ar sail talu-wrth-wylio yn unig yn y dyfodol? (TAQ401)

**Gofyn i'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Brexit**

**Huw Irranca-Davies (Ogwr):** I ba raddau yr ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru ynghylch cynnwys mandad y DU ar gyfer y trafodaethau gyda'r UE? (TAQ402)

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol: Strategaeth Ryngwladol Ddrafft Llywodraeth Cymru

(60 munud)

**NDM7286** – David Rees (Aberafan)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar Strategaeth Ryngwladol Ddrafft Llywodraeth Cymru, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 12 Rhagfyr 2019.

Er gwybodaeth: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru ar 5 Chwefror 2020.

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Plant Sy'n Derbyn Gofal

(60 munud)

**NDM7287** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

1. Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i blant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o'r maes gofal ac Adroddiad Blynyddol Rhaglen Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant ar gyfer 2019.

2. Yn nodi ymhellach bod cyfleoedd bywyd plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn sylweddol waeth na'r plant hynny nad ydynt mewn gofal.

3. Yn gresynu bod nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi codi 34 y cant yn ystod y 15 mlynedd diwethaf, a bod bron i 10 y cant o blant mewn gofal wedi bod mewn tri neu fwy o leoliadau.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

a) adolygu cynlluniau awdurdodau lleol ar frys o ran lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal;

b) cynorthwyo awdurdodau lleol i recriwtio 550 o deuluoedd maeth yng Nghymru i lenwi'r bylchau a ganfuwyd gan y Rhwydwaith Maethu;

c) ymchwilio i gymorth ariannol ac adsefydlu sydd ar gael i rieni mabwysiadol; a

d) sicrhau bod mynediad i gyrsiau rhianta cadarnhaol am ddim yn cael ei gynnig i bob rhiant a gwarcheidwad ledled Cymru.

Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - Plant a Phobl Ifanc Sydd Wedi Bod Mewn Gofal -Tachwedd 2018

Adroddiad Blynyddol Rhaglen Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant 2019

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** - Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod yna resymau cymleth tu ôl i lefelau cynyddol o blant mewn gofal, ond yn credu fod y disgwyliad sydd ar awdurdodau lleol i osod targedau er mwyn ateb y broblem yn ddatrysiad arwynebol.

**Gwelliant 2** - Neil McEvoy (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu:

a) mai llwybr cydnabyddedig da allan o ofal yw drwy gysylltiad o safon uchel rhwng plant sy’n derbyn gofal a’u rhieni;

b) na ddylai cysylltiad gael ei leihau na’i gyfyngu er cyfleuster i ddarparwyr gofal a gaiff eu talu; ac

c) gall cysylltiad cyfyngedig gadw plant mewn gofal yn hirach na sydd ei angen.

**Gwelliant 3** - Neil McEvoy (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod fod pobl ifanc sy’n gadael gofal ac a ddaw’n rhieni, hefyd yn wynebu’r risg o wahaniaethu ac y gallai fod yn ddefnyddiol ailedrych ar bob achos

plentyn mewn gofal i chwilio am gefndir o wahaniaethu yn erbyn rhieni a oedd yn cyfrannu at gadw eu plentyn mewn gofal.

**Gwelliant 4** – Neil McEvoy (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y dylai'r ysgogiad elw gael ei ddileu o'r maes gofal plant ac nad cwmnïau preifat yw'r dewis gorau i wasanaethu buddiannau plant Cymru yn y dyfodol.

**Gwelliant 5** – Neil McEvoy (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynnu bod plant sy'n gwneud honiadau ynghylch camdrin mewn gofal yn cael eu cymryd o ddifrif ac y cânt eiriolwr, a bod arbenigwr diogelu plant yn siarad â nhw mewn lle diogel er mwyn trafod yr hyn â godwyd.

**Gwelliant 6** – Neil McEvoy (Canol De Cymru)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod fod ymchwiliadau o gwynion yn gwadu ffeithiau mewn adroddiadau asesu a derbyn mewn cysylltiad â phlant sy'n derbyn gofal, fod yn gyfan gwbl annibynnol a heb i'r cyngor sir y mae'r achwynwr yn cwyno amdano fod yn talu amdanynt.

## 7 Dadl Plaid Cymru - Anhwylderau Bwyta

(30 munud)

**NDM7288** – Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod Wythnos Ymwybyddiaeth Anhwylderau Bwyta 2020 yn cael ei chynnal rhwng 2 Mawrth a 8 Mawrth ac y bydd y ffocws eleni ar bwysigrwydd grymuso a chefnogi teuluoedd a chyfeillion.

2. Yn credu:

a) bod anhwylderau bwyta yn salwch meddwl difrifol gyda chyfraddau marwolaeth uchel;

b) bod gwellhad yn bosibl;

c) gall teuluoedd a chyfeillion chwarae rhan hollbwysig wrth gefnogi adferiad.

3. Yn cymeradwyo'r rhai a fu'n gweithio ar yr Adolygiad o'r Gwasanaeth Anhwylderau Bwyta 2018 a lansiwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gymerodd ran ynddo, ac uchelgais yr adolygiad i greu gwasanaeth anhwylderau bwyta o safon fyd-eang i Gymru, sy'n hygyrch i bawb sydd ei angen.

4. Yn credu y bydd grymuso a chefnogi teuluoedd, ffrindiau a gofalwyr eraill yn hanfodol i wireddu'r uchelgais hwn.

5. Yn gresynu at y cyfnod estynedig o amser a gymerodd Llywodraeth Cymru i ymateb i gasgliadau adolygiad 2018 o'r gwasanaeth.

6. Yn galw ar Lywodraeth Cymru a byrddau iechyd, awdurdodau lleol a'r holl randdeiliaid eraill i sicrhau bod argymhellion yr Adolygiad Gwasanaeth Anhwylderau Bwyta 2018 yn cael eu gweithredu'n llawn.

Adolygiad Llywodraeth Cymru o Wasanaeth Anhwylderau Bwyta - Tachwedd 2018

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 5 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn gresynu ymhellach at yr amser i ddatblygu amseroedd aros am wasanaethau i oedolion a gwasanaethau plant a amlinellir yn ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 26 Medi 2019.

Datganiad ysgrifenedig - Adolygiad o Wasanaethau Anhwylderau Bwyta Cymru - Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - 26 Medi 2019

**Gwelliant 2** - Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ym mhwynt 6, ar ôl 'i sicrhau' ychwanegu 'ar frys'.

## 8 Dadl Plaid Cymru - Gwasanaethau Iechyd Meddwl

(30 munud)

**NDM7289** – Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r pryderon ynghylch ansawdd y gofal a godir gan berthnasau cleifion o Gymru mewn unedau iechyd meddwl cleifion mewnol yn Lloegr.

2. Yn credu na ddylid anfon unrhyw gleifion sy'n cael problemau iechyd meddwl i unedau sy'n bell iawn o'u teulu.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) sicrhau digon o gapasiti cleifion mewnol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru fel y gellir mynd ati'n radol i ddileu'r gwaith o roi gofal ar gontract allanol;

b) bod â chynllun ar gyfer ailwladoli cleifion o Gymru sydd ar hyn o bryd yn byw mewn unedau yn Lloegr;

c) gosod gwaharddiad ar GIG Cymru rhag defnyddio unedau yn Lloegr sydd ag adroddiadau gwael gan y Comisiwn Ansawdd Gofal;

d) sicrhau bod unedau y tu allan i Gymru sy'n derbyn arian GIG Cymru yn cydymffurfio â gofynion arolygu Cymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) sicrhau bod pellter o’r cartref yn cael ei ystyried yn ffactor allweddol ar gyfer pobl sydd angen cymorth iechyd meddwl arbenigol fel cleifion mewnol

b) sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith i fonitro ansawdd a diogelwch lleoliadau mewn unedau yn Lloegr, gan gynnwys gweithio ar y cyd â’r Comisiwn Ansawdd Gofal.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad]*

**Gwelliant 2** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) sicrhau bod holl gleifion iechyd meddwl cyfrwng Cymraeg a diogelwch lefel uchel yn cael eu lleoli yng Nghymru oni bai mewn amgylchiadau eithriadol;

b) sicrhau digon o gapasiti ar gyfer cleifion mewnol diogelwch canolig a lefel uchel ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru fel y gellir diddymu'r trefniadau ar gyfer contractio gofal yn raddol;

c) sicrhau bod Arolygiaeth Iechyd Cymru a'r Comisiwn Ansawdd Gofal yn cydweithredu er mwyn i unedau iechyd meddwl y tu allan i Gymru sy'n derbyn cleifion o Gymru gydymffurfio â gofynion arolygu;

d) cyflwyno Uwch-swyddogion Cyfrifol ar gyfer cleifion iechyd meddwl diogelwch canolig a lefel uchel Cymru er mwyn galluogi cydweithio rhwng Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a byrddau iechyd lleol sy'n canolbwyntio ar y claf; ac

e) sicrhau bod yn rhaid i gynlluniau cyfathrebu gael eu gosod ochr yn ochr â chynlluniau triniaeth ar gyfer cleifion iechyd meddwl diogelwch canolig a lefel uchel Cymru er mwyn rheoli disgwyliadau'r claf, y teulu a'r clinigwyr.

## 9 Cyfnod pleidleisio

## 10 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7280** – Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Ai clefyd yw gordewdra?

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mawrth, 10 Mawrth 2020

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 26/02/2020 i'w hateb ar 04/03/2020

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

**1** OAQ55170

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r diwydiant bwyd a diod yng ngogledd Cymru?

**Neil McEvoy** *Canol De Cymru*

**2** OAQ55151

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru sicrhau bod asesiad llawn o'r effaith amgylcheddol yn cael ei gynnal i ystyried y difrod i'r amgylchedd naturiol ar hyd morlin de Cymru o'r mwd y bwriedir ei ddadlwytho o adweithydd niwclear Hinkley Point i mewn i aber afon Hafren?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

**3** OAQ55144

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i gynyddu nifer y coed a gaiff eu plannu ledled Cymru?

**Mark Reckless** *Dwyrain De Cymru*

**4** OAQ55161

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rannu cyfrifoldebau ar gyfer archwilio tomenni glo a'u cadw'n ddiogel?

**Hefin David** *Caerffili*

**5** OAQ55164

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisi Llywodraeth Cymru ynglŷn ag effaith amgylcheddol niwsans llwch ar gymunedau?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

6 OAQ55152

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi pobl y mae'r llifogydd diweddar yng Nghwm Cynon wedi effeithio arnynt?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

7 OAQ55177

**(e)**

Pa gefnogaeth a chymorth y gall Llywodraeth Cymru eu cynnig i gymunedau yn Islwyn yn dilyn y difrod llifogydd diweddar?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

8 OAQ55180

**(w)**

Beth mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud i warchod pobl Cymru rhag sgil effaith llwch yn dianc i'r atmosffer?

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

9 OAQ55166

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am bysgota cregyn bylchog ym Mae Ceredigion?

**Mohammad Asghar** *Dwyrain De Cymru*

10 OAQ55167

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith y llifogydd diweddar ar les anifeiliaid yng Nghymru?

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*

11 OAQ55146

**(e)**

Sut y bydd y Gweinidog yn sicrhau y bydd ymagwedd Llywodraeth Cymru at ffermio yn cyfrannu at ddiwydiant ffermio cynaliadwy?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

12 OAQ55157

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cymorth a roddir i ffermwyr ar ôl Brexit?

# Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

**David J. Rowlands** *Dwyrain De Cymru*

1 OAQ55148

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau nad yw ad-drefnu llywodraeth leol yn arwain at gostau uwch i drethdalwyr?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

2 OAQ55160

**(w)**

Faint o bobl sydd ar restrau aros am dai cymdeithasol ar draws Cymru?

**Michelle Brown** *Gogledd Cymru*

3 OAQ55169

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau bod mwy o dai ar gael i bobl yng Ngogledd Cymru?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

4 OAQ55163

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am argaeledd tai cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

5 OAQ55176

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r gwaith o adfywio canol trefi yng ngogledd ddwyrain Cymru?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

6 OAQ55181

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adeiladu tai cyngor yng Nghymru?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

7 OAQ55179

Datganodd yr Aelod fuddiant

**(e)**

Sut y mae polisïau hawliau tramwy Llywodraeth Cymru yn cefnogi ymgyrch Y Cerddwyr 'Don't Lose Your Way''?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

8 OAQ55154

**(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau cynhwysiant ariannol yng Nghymru?

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

**9** OAQ55147

**(e)**

Faint o anheddau cyngor y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl fydd yn cael eu hadeiladu ym mlwyddyn ariannol 2020/21?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

**10** OAQ55162

**(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag eiddo gwag yng Ngorllewin De Cymru?

**Jayne Bryant** *Gorllewin Casnewydd*

**11** OAQ55183

**(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau cyfraddau ailgylchu ymhellach yng Nghymru?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

**12** OAQ55178

**(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau posibl i reoli’r farchnad ail gartrefi?